Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Plas Dwbl (CAA)

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/07/2015**

## Cyd-destun

Agorodd Coleg Plas Dwbl, sy’n rhan o Grŵp Ymddiriedolaeth Ruskin Mill, ym Medi 2011.  Mae’r Coleg ar fferm can erw ar droed mynyddoedd y Preseli yn Sir Benfro. Mae’r tir yn cynnwys tir pori, coetir a gerddi helaeth ar gyfer garddwriaeth.

Mae’r coleg yn darparu ar gyfer dysgwyr preswyl a dydd sydd ag ystod o anawsterau dysgu, gan gynnwys anhwylderau’r sbectrwm awtistig, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd ac anhwylderau ymlyniad.  Mae dysgwyr preswyl yn byw mewn tai ar y safle.  Ar hyn o bryd, mae saith o ddysgwyr rhwng 18 a 25 oed.

Mae’r coleg yn seilio ei hathroniaeth addysgol ar egwyddorion sefydlu’r athronydd a’r gwyddonydd Rudolph Steiner.  Mae’n cynnig cwricwlwm Addysg Therapiwtig Sgiliau Ymarferol, sy’n rhoi’r cyfle i ddysgwyr ddysgu drwy weithgareddau bywyd go iawn.

Y pennaeth addysg a gofal preswyl sy’n rheoli gwaith y coleg o ddydd i ddydd.  Hyd at yn ddiweddar iawn, roedd dirprwy bennaeth yng Ngholeg Ruskin Mill yn darparu cymorth strategol rheolaidd i’r coleg.  Ym Mai 2015, ymgymerodd â rôl pennaeth yng Ngholeg Plas Dwbl.

Mae bwrdd ymddiriedolwyr yn goruchwylio gwaith y coleg.

Mae’r coleg yn rhannu swyddogaethau allweddol gyda choleg Ruskin Mill.  Mae’r rhain yn cynnwys gwasanaethau technegol, adnoddau dynol, rheoli iechyd a diogelwch, hyfforddiant a datblygiad staff a chymorth ariannol.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | Da |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | Da |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yn y coleg yn dda oherwydd:

- Mae dysgwyr yn ymgartrefu'n gyflym yn y coleg ac yn gwneud cynnydd cyson
- Dros y ddwy flynedd diwethaf, fe wnaeth yr holl ymadawyr symud i gyflogaeth neu hyfforddiant pellach
- Mae'r holl ddysgwyr yn elwa ar brofiadau gwaith o ansawdd da sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'u medrau galwedigaethol datblygol
- Mae ymddygiad yn dda ar draws y coleg, ac mae dysgwyr yn canolbwyntio ar eu tasg trwy gydol eu sesiynau
- Mae dysgwyr yn datblygu'u medrau cymdeithasol a medrau bywyd yn dda iawn
- Mae tiwtoriaid yn talu sylw da iawn i anghenion llythrennedd a rhifedd y dysgwyr

## Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- Mae gan arweinwyr a rheolwyr weledigaeth glir iawn, ac maent yn ei chyfleu yn dda i'r holl randdeiliaid
- Mae rolau a chyfrifoldebau yn glir
- Mae'r coleg wedi penodi pennaeth yn ddiweddar sydd â chyfrifoldeb am reolaeth strategol y coleg
- Mae rheoli perfformiad yn nodi anghenion hyfforddi unigol a'r coleg cyfan, ac mae'r coleg yn mynd i'r afael â'r rhain yn dda
- Mae gwybodaeth ac arbenigedd perthnasol gan yr ymddiriedolwyr, ac maent yn darparu cymorth a her fuddiol i'r coleg
- Mae dealltwriaeth glir gan y coleg o'i gryfderau a meysydd i'w datblygu
- Mae'r cynllun gwella ansawdd yn ddogfen glir, wedi'i chyflwyno'n dda, sy'n nodi ac yn blaenoriaethu meysydd priodol i'w datblygu

## Argymhellion

A1 Gwella prydlondeb dysgwyr wrth fynychu sesiynau

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr weithio mewn grwpiau

A3 Sicrhau bod yr holl staff yn rhoi amser i ddysgwyr gwlbhau tasgau mor annibynnol ag y bo modd

A4 Gwella'r broses o ddefnyddio a dadansoddi data i lywio cynllunio strategol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Mae Estyn yn cynghori'r coleg i newid ei gynllun datblygu ansawdd presennol i ddangos pa gamau y mae'r coleg yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r argymhellion. Fe'i cynghorir hefyd i ddosbarthu'r cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i'r holl rieni a gofalwyr yn y coleg.

Bydd Estyn yn monitro'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn yr arolygiad monitro blynyddol nesaf.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ychydig iawn o hyder yn eu gallu eu hunain sydd gan ddysgwyr wrth gyrraedd y coleg. Yn aml, nid ydynt yn gallu rheoli eu hymddygiad na gweithio'n annibynnol. Mae llawer ohonynt yn ei chael hi'n anodd meithrin perthnasoedd a gweithio'n dda gyda rhai eraill. Yn sgil y cymorth cadarn a'r anogaeth a gânt gan staff, maent yn ymgartrefu'n gyflym ac yn gwneud cynnydd cyson.

Oherwydd y niferoedd bach o ddysgwyr, nid yw'n briodol i ddadansoddi tueddiadau mewn perfformiad.

Mae dysgwyr yn datblygu'u medrau siarad a gwrando yn dda. Maent yn gallu ateb cwestiynau pwysig ynglŷn â'u tasgau a chymryd rhan mewn trafodaethau cysylltiedig gyda'u cyfoedion. Maent yn ymatebol i gwestiynu, ac yn gallu rhoi esboniadau clir ynglŷn â'u gwaith. Er enghraifft, maent yn disgrifio sut aethant ati i godi ffens drydan ac yn egluro'r foltedd oedd ei angen. Maent yn dangos dealltwriaeth glir o iaith penodol i bwnc, fel diamedr offeryn turnio.

Mae'r holl ddysgwyr yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu eu gallu i ysgrifennu brawddegau syml a chofnodi gwybodaeth bwysig. Er enghraifft, maent yn rhestru toriadau cig oen ac yn cadw cofnod o hylif tractor. Mae ychydig o ddysgwyr yn defnyddio ysgrifennu estynedig yn dda i arfarnu eu gwaith. Maent yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i ysgrifennu llythyrau a chynhyrchu cylchlythyr cymunedol o ansawdd da. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn atalnodi eu gwaith yn gyson, gan ddefnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn.

Pan fydd dysgwyr yn cyrraedd y coleg, mae eu medrau darllen ymhell islaw hynny a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Mae'r holl ddysgwyr yn gwneud cynnydd da wrth wella cywirdeb a rhuglder eu darllen. Maent yn gwneud defnydd da o'r medrau datblygol hyn i ddarllen ryseitiau pan fyddant yn coginio, i ddefnyddio catalogau pan fyddant yn archebu dillad gwaith ac i ddarllen bwydlenni pan fyddant yn archebu bwyd.

Mae'r holl ddysgwyr yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda, o waelodlin isel iawn yn aml. Maent yn dysgu i fesur a phwyso'n gywir, ac amcangyfrif, ac wedyn yn gwirio'u cywirdeb. Maent yn cyfrifo'r arbedion a wnaed gan y fferm drwy dorri eu coed eu hunain ac yn gweithio allan faint o arian sy'n cael ei godi yn y ffair Nadolig.

Mae staff yn gwneud defnydd da o system olrhain i gofnodi camau cynnydd bach pob dysgwr. Mae hyn yn hwb mawr i'r dysgwyr, ac maent yn cael eu cynnwys yn weithredol wrth arfarnu eu cynnydd eu hunain. Maent yn gwybod yn union beth i'w wneud i wella eu perfformiad er mwyn cyflawni'r nodau hirdymor y maent wedi'u gosod iddynt eu hunain, fel dod o hyd i waith a byw'n annibynnol.

Drwy'r cyrsiau sy'n cael eu cynnig a gwaith yn y gymuned ehangach, mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth dda iawn o'r byd gwaith. Maent yn cyflawni ystod eang o

gymwysterau galwedigaethol priodol. Mae'r rhain yn cynnwys astudiaethau tir, fel gofalu am anifeiliaid fferm a garddwriaeth, torri llwyni a hylendid bwyd. Mae llawer ohonynt yn mynychu cyrsiau'r coleg lleol, ar sail ran amser.

Mae'r holl ddysgwyr yn elwa ar brofiadau gwaith o ansawdd da sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'u medrau galwedigaethol datblygol. Er enghraifft, maent yn gweithio yn y Parc Cenedlaethol, mewn gardd gymunedol ac mewn menter gymdeithasol pobi bara. Mae dysgwyr yn talu sylw da i iechyd a diogelwch. Maent yn trin cyllyll cegin ac offer torri gyda gofal. Yn y ddwy flynedd diwethaf, fe wnaeth pob un o'r wyth ymadawr symud ymlaen i gyflogaeth neu hyfforddiant pellach. Mae hyn yn cynnwys gyrru wagen fforch godi, gweithio fel cynorthwyydd addysgu neu hyfforddi i fod yn blymwr. Mae hyn yn gyflawniad sylweddol.

Mae dysgwyr yn ennill ystod o ddyfarniadau eraill sydd wedi'u cynllunio i gynyddu eu hannibyniaeth ac annog creadigrwydd. Drwy weithio tuag at ddyfarniad John Muir, mae dysgwyr yn dod yn fwy abl o ran myfyrio a mynegi'u hunain drwy'r celfyddydau. Mae dysgwyr o'r coleg wedi cyflawni llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd mewn gwaith metel, crochenwaith a basgedwaith.

**Lles: Da**

Mae pob un o'r dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth dda o ffyrdd iach o fyw drwy ymarfer corff yn rheolaidd a dewisiadau bwyta gwybodus. Mae llawer o ddysgwyr yn gwella eu diet drwy fod yn barod i flasu bwydydd gwahanol y maent wedi'u tyfu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol sydd wedi'u cynllunio'n dda, fel nofio, beicio a defnyddio'r gampfa leol.

Mae'r holl ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac yn gwybod gyda phwy i siarad os oes ganddynt bryder. Maent yn teimlo'n esmwyth yn mynd at aelodau staff allweddol, ac mae bron pob un ohonynt yn hyderus y bydd staff yn gwrando arnynt.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu gwersi yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw pob dysgwr yn cyrraedd eu sesiynau yn brydlon. O ganlyniad, maent yn colli amser cwricwlwm gwerthfawr ac nid ydynt yn datblygu medrau cadw amser pwysig sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth neu hyfforddiant yn y dyfodol.

Mae ymddygiad ar draws y coleg yn dda, ac mae dysgwyr yn canolbwyntio ar eu tasg trwy gydol eu sesiynau. Pan fydd dysgwyr wedi'u cynhyrfu, maent yn gwneud defnydd da o strategaethau y maent wedi'u cytuno gyda staff, fel eistedd yn yr ardd neu gerdded o amgylch safle'r coleg. O ganlyniad, maent yn dychwelyd i'w sesiynau ac yn parhau â'u gwaith.

Mae dysgwyr yn falch o'r gwaith y maent yn ei gynhyrchu, ac yn awyddus i ddangos eu gemwaith a'u basgedi cartref i ymwelwyr.

Mae dysgwyr yn cael eu cynnwys yn llawn wrth gynllunio eu dysgu eu hunain. Maent yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd y coleg, ac yn gwneud dewisiadau pwysig ynglŷn â bywyd y coleg. Er enghraifft, maent yn penderfynu pa ddigwyddiadau codi arian y byddant yn eu cynnal a sut byddant yn gwario'r arian a godwyd ganddynt. Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi cyflwyno proses newydd i

gyfweld â staff. Mae dysgwyr yn cael eu cynnwys wrth ddangos darpar ymgeiswyr o amgylch y coleg ac maent yn rhoi adborth ar eu haddasrwydd.

Mae dysgwyr yn datblygu'u medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn dda iawn. Maent yn ymwneud â'r gymuned leol drwy fenter gymdeithasol pobi bara, ac yn gwerthu eu cynnyrch eu hunain mewn siop leol. Maent yn gweithio mewn grwpiau i dacluso gerddi yn y gymuned, ac yn mynd allan am brydau bwyd gyda'i gilydd mewn tafarn lleol. Fe wnaeth dysgwyr elwa ar waith gyda therapydd dawns i'w helpu i ymwneud ac i weithio gyda'u cyfoedion.

Mae dysgwyr yn magu hyder. Maent yn cyfranogi mewn sgyrsiau aeddfed gydag aelodau staff yn ystod amser cinio, yn sôn am eu cyflawniadau personol ac yn gallu disgrifio digwyddiadau sy'n bwysig iddynt hwy.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r coleg yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni anghenion y dysgwyr yn dda. Mae'r rhaglen tair blynedd yn cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr ennill cymwysterau wedi'u hachredu'n genedlaethol a chymhwyso'r medrau y maent yn eu dysgu mewn lleoliadau mewnol ac allanol. Caiff bob un o'r dysgwyr ystod eang o leoliadau gwaith mewnol ac allanol. Mae'r rhain yn cynnwys canolfan achub anifeiliaid, siopau cymunedol a Pharc Cenedlaethol. Mae'r cymwysterau y bydd dysgwyr yn gweithio tuag atynt yn cefnogi'r lleoliadau hyn ac maent yn gysylltiedig â'u diddordebau personol a nodau tymor hir.

Mae'r coleg yn darparu addysg rhyw a pherthnasoedd briodol. Mae pob un o'r dysgwyr yn cymryd rhan mewn cwrs deg wythnos sydd wedi'i deilwra i fodloni'u hanghenion unigol.

Ceir ffocws priodol ar lythrennedd a rhifedd trwy gydol y diwrnod coleg. Mae'r holl gynlluniau gwaith yn cynnwys datblygu medrau hanfodol. Er enghraifft, caiff dysgwyr gyfleoedd i ymarfer eu medrau llythrennedd a rhifedd drwy sillafu geiriau allweddol yn gysylltiedig â thasg gwaith metel a phwyso llysiau mewn garddwriaeth. Mae pob un o'r dysgwyr yn cael sesiynau medrau hanfodol ar wahân.

Yn ddiweddar, cyflwynodd y coleg system gadarn i olrhain cynnydd ar draws y cwricwlwm, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gynllunio a chyflwyno sesiynau.

Caiff myfyrwyr gyfleoedd i wellau eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd, er enghraifft pan fyddant yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i fynd i'r gymuned, wrth dalu am eitemau mewn caffi ac archebu eu bwyd eu hunain. Fodd bynnag, am fod rhaglenni unigol gan y dysgwyr, cyfyngedig yw'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwaith grŵp ar draws y cwricwlwm.

Mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth fuddiol o ddiwylliannau eraill. Er enghraifft, wrth gynaeafu grawn, cânt eu hannog i ganfod o ble ddaeth y grawn yn wreiddiol.

Mae tiwtoriaid yn defnyddio sesiynau yn dda i atgyfnerthu negeseuon gwerthfawr ynglŷn â'u hamgylchedd lleol, fel pwysigrwydd glanhau traethau.

**Addysgu: Da**

Mae pob un o'r staff yn ymwneud yn dda iawn â'r dysgwyr ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanawsterau a'u hanghenion penodol. Maent yn creu hinsawdd o ganmol ac annog, sy'n helpu dysgwyr i deimlo'n hyderus wrth roi cynnig ar dasgau newydd. Ar brydiau, fodd bynnag, mae staff yn gwneud gormod dros y dysgwyr yn hytrach na rhoi digon o amser iddynt gwblhau tasg yn annibynnol.

Mae tiwtoriaid yn defnyddio'r wybodaeth fanwl ym mhroffiliau'r dysgwyr i gynllunio'u sesiynau yn ofalus. Maent yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddysgwyr fodloni eu nodau tymor byr. Mae'r proffiliau dysgwyr yn rhoi awgrymiadau defnyddiol i staff o ran helpu dysgwyr reoli'u hymddygiad. O ganlyniad, caiff digwyddiadau eu hosgoi neu eu datrys yn gyflym. Mae tiwtoriaid yn defnyddio iaith glir iawn fel bod dysgwyr yn gwybod yn union beth sydd rhaid iddynt ei wneud i gwblhau tasg. Maent yn defnyddio techneg holi yn dda i wirio dealltwriaeth dysgwyr.

Mae tiwtoriaid yn talu sylw da iawn i anghenion llythrennedd a rhifedd y dysgwyr. Yn y gweithdai galwedigaethol, caiff llawer o gyfleoedd wedi'u cynllunio eu cynnig i ddysgwyr ymarfer eu medrau datblygol.

Mae'r coleg yn defnyddio asesu effeithiol i nodi cryfderau dysgwyr a meysydd angen. Mae staff a dysgwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i osod targedau, sy'n cynnwys camau cynnydd bach tuag at nodau tymor byr a thymor canolig dysgwyr.

Disgwylir i ddysgwyr fyfyrio ar eu dysgu eu hunain a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, a chânt adborth buddiol ar ddiwedd pob sesiwn. Fodd bynnag, nid yw tiwtoriaid bob amser yn marcio gwaith yn ddigon gofalus.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad yn dda. Mae'r coleg yn darparu amgylchedd tawel a gofalgar sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at les dysgwyr. Lle mae gan ddysgwyr faterion arbennig sy'n peri pryder iddynt, mae staff yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr help sydd ei angen arnynt. Mae hyn yn cynnwys cymorth gyda phrofedigaeth a materion teuluol. Mae'r coleg yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol dysgwyr yn dda. Mae ychydig o ddysgwyr yn mynychu eu heglwys leol gyda staff cymorth.

Rhoddir ffocws cadarn ar ddatblygu annibyniaeth dysgwyr a'u galluogi i ddod yn oedolion aeddfed. Er enghraifft, mae staff yn annog dysgwyr i ofalu am eu harian eu hunain a datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i siopa am eu dillad eu hunain. Mae'r coleg yn paratoi dysgwyr yn dda ar gyfer trosglwyddo i gyflogaeth, hyfforddiant pellach neu ddarpariaeth briodol arall.

Mae polisïau a gweithdrefnau clir ar waith ar gyfer rheoli ymddygiad dysgwyr. Caiff gwybodaeth ei rhannu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod dull gweithredu cyson gan

bob aelod o staff. Mae prosesau effeithiol ar waith gan y coleg ar gyfer mynd i'r afael â mân anghydfodau rhwng dysgwyr, a chaiff y rhain eu datrys yn gyflym.

Mae cynlluniau dysgu unigol yn fanwl ac yn cynnwys targedau perthnasol sy'n canolbwyntio ar les dysgwyr. Mae staff yn gwneud defnydd da iawn o'r system olrhain a gyflwynwyd yn ddiweddar i wneud yn siŵr eu bod yn gwybod am unrhyw anawsterau sydd gan ddysgwyr. O ganlyniad, gall staff ymyrryd yn gyflym lle bo materion gan ddysgwyr.

Mae'r coleg yn nodi anghenion dysgu ychwanegol yn dda ac yn darparu cymorth wedi'i gydweddu'n dda i ddysgwyr pan fydd ei angen. Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi cyflogi seicolegydd clinigol i ddarparu sesiynau un i un i ddysgwyr. Mae'n darparu hyfforddiant gwerthfawr i'r staff, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar reoli ymddygiadau ac ar les dysgwyr.

Mae trefniadau'r coleg ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri unrhyw bryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r coleg yn darparu ethos croesawgar a chynhwysol sy'n seiliedig ar barch ar y ddwy ochr rhwng staff a dysgwyr. O ganlyniad, mae dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi, ac maent yn awyddus i ddysgu. Mae pob dysgwr yn cael mynediad cyfartal i holl feysydd y cwricwlwm a'r ddarpariaeth.

Mae tir ac adeiladau'r fferm wedi cael eu hadfer yn helaeth, ac yn cael eu cynnal a'u cadw yn dda iawn. Mae'r safle yn rhoi gofod i ddysgwyr fyfyrio ac ymdawelu. Mae'n rhoi'r cyfle iddynt fod yn annibynnol o fewn lleoliad diogel. Ceir offer da yn y gweithdai ac ystafelloedd dosbarth, ynghyd ag arddangosiadau deniadol i greu amgylchedd ysgogol.

Mae dysgwyr yn cael defnyddio adnoddau TGCh, fel cyfrifiaduron llechen mewn gweithdai a chyfrifiadur yn yr ystafell medrau hanfodol. Fodd bynnag, bylchog yw'r cysylltiad â'r rhyngrwyd oherwydd lleoliad anghysbell y safle.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan arweinwyr a rheolwyr weledigaeth glir iawn ac maent yn ei chyfleu'n dda i'r holl randdeiliaid. Mae staff yn gweithio'n dda iawn â'i gilydd i greu ethos cadarnhaol lle mae pob aelod o staff a dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae rolau a chyfrifoldebau yn glir. Mae swydd pennaeth addysg a gofal preswyl yn sicrhau bod cyfathrebu effeithiol a chysondeb rhwng y ddau leoliad. Mae hyn yn cyfrannu at y deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr.

Mae staff yn cyfarfod yn ffurfiol yn rheolaidd, ac o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o faterion yn ymwneud â dysgwyr unigol a datblygiadau yn y coleg.

Mae cofnodion cyfarfodydd yn nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am gamau gweithredu penodol. Mae rheolwyr yn monitro cynnydd yn erbyn y camau hyn yn effeithiol.

Fel rhan o Ymddiriedolaeth Ruskin Mill, caiff y coleg gyfeiriad strategol priodol gan y sefydliad ehangach. Mae gweledigaeth glir gan yr ymddiriedolaeth ar gyfer Coleg Plas Dwbl i weithredu'n fwy annibynnol fel coleg yng Nghymru. Er mwyn dwyn hyn yn ei flaen, maent wedi penodi pennaeth yn ddiweddar sydd bellach yn gyfrifol am reolaeth strategol y coleg.

Mae rheolwyr ar draws y sefydliad yn cyfarfod yn rheolaidd, ac mae hyn yn rhoi cyfleoedd buddiol i reolwyr yng Ngholeg Plas Dwbl rannu arfer dda a datblygu'u rolau rheoli. Mae gweithio agos gyda'r colegau eraill wedi arwain at welliannau, fel sefydlu systemau ar gyfer monitro ymddygiad dysgwyr ac olrhain cynnydd.

Mae systemau priodol ar waith gan y coleg ar gyfer rheoli perfformiad staff. Mae staff yn gadarnhaol ynglŷn â'r broses hon. Mae targedau unigol yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau dynodedig y coleg. Mae rheoli perfformiad yn nodi anghenion hyfforddi unigol a choleg cyfan, ac mae'r coleg yn mynd i'r afael â'r rhain yn dda. Mae arsylwadau o wersi yn darparu adborth ysgrifenedig defnyddiol i diwtoriaid ynglŷn â chryfderau a meysydd i'w datblygu.

Mae gwybodaeth ac arbenigedd perthnasol gan yr ymddiriedolwyr, ac maent yn darparu cymorth a her ddefnyddiol i'r coleg. Cânt adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth addysg a dysgu, ac mae hyn yn rhoi gwybodaeth dda iddynt am waith y coleg. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ddiogelu a materion iechyd a diogelwch. Mae dealltwriaeth glir gan yr ymddiriedolwyr o gryfderau a meysydd i'w datblygu, a'r hyn y mae angen i'r coleg ei wneud i wella ymhellach.

Mae'r coleg yn casglu ystod o ddata ar ddeilliannau dysgwyr, ac mae'n dechrau coladu hwn yn fwy effeithiol er mwyn iddo fod ar gael yn rhwydd. Mae staff yn defnyddio data dysgwyr unigol yn effeithiol i gynllunio rhaglenni ac ymyriadau priodol. Fodd bynnag, nid yw'r broses o ddadansoddi data'r coleg cyfan i lywio cynllunio datblygiad wedi'i ddatblygu gystal.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae dealltwriaeth glir gan y coleg o'i gryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hunanasesu. Mae'r adroddiad yn rhoi disgrifiad gonest o'r coleg, er ei fod yn rhy ddisgrifiadol mewn mannau, ac nid yn ddigon arfarnol.

Mae'r coleg yn gofyn am farnau dysgwyr yn rheolaidd drwy gyfarfodydd myfyrwyr. Megis dechrau cael eu datblygu y mae prosesau ffurfiol ar gyfer cael barnau rhanddeiliaid eraill. Yn ddiweddar, fodd bynnag, mae'r coleg wedi datblygu arolwg ar gyfer rhieni a gofalwyr a rhanddeiliaid eraill, gweithwyr cymdeithasol, colegau a'r seicolegydd clinigol. Mae hyn wedi darparu gwybodaeth ddefnyddiol yn ymwneud â deilliannau dysgwyr ac ansawdd y ddarpariaeth yn y coleg.

Mae'r adroddiad hunanasesu yn cysylltu'n dda â'r cynllun gwella ansawdd. Mae'r cynllun gwella ansawdd yn ddogfen glir, wedi'i chyflwyno'n dda, sy'n nodi ac yn

blaenoriaethu meysydd priodol i'w datblygu. Mae'r cynnwys graddfeydd amser realistig a chyfrifoldebau clir. Mae systemau cadarn yn eu lle ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn y camau gweithredu.

Mae'r coleg yn rhoi ffocws da ar welliant parhaus. Mae staff ar draws y coleg wedi gwneud gwelliannau pwysig, ac mae'r rhain wedi cael effaith ar ansawdd y ddarpariaeth a safonau yn y coleg. Er enghraifft, maent wedi gwella'r dull o gofnodi cynnydd dysgwyr ac ansawdd cynllunio gwersi, gyda mwy o ffocws ar fedrau hanfodol.

Mae gweithio agos gyda cholegau eraill o fewn y sefydliad ehangach wedi cyfrannu at lawer o'r gwelliannau a wnaed.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r coleg wedi datblygu ystod o bartneriaethau effeithiol sydd wedi cynyddu cyfleoedd dysgu ar gyfer dysgwyr, ac wedi cael effaith gadarnhaol ar eu deilliannau.

Mae partneriaeth gyda choleg lleol yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddilyn cyrsiau sy'n addas i'w hanghenion a'u dewisiadau unigol, er enghraifft cwrs mewn rheoli ceffylau. Mae mynychu'r coleg yn cynnig cyfleoedd pwysig i ddysgwyr ddatblygu eu medrau cymdeithasol drwy ryngweithio â phobl ifanc eraill.

Trwy gysylltiadau effeithiol gyda busnesau lleol, caiff dysgwyr y cyfle i gymryd rhan mewn profiad gwaith perthnasol, er enghraifft gofalu am geffylau mewn stablau marchogaeth, gwneud arwyddion pren yn y Ganolfan Coetir a gweithio mewn siop gymunedol. Mae partneriaeth lwyddiannus gyda'r Parc Cenedlaethol wedi rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr weithio fel gwirfoddolwyr a dysgu am yr amgylchedd.

Mae'r coleg wedi meithrin ymddiriedaeth a chefnogaeth y gymuned leol. Mae'n cynnal digwyddiadau cymunedol rheolaidd ac mae niferoedd da yn eu mynychu; yma, bydd dysgwyr yn ymarfer medrau gweithio defnyddiol fel gweini bwyd a rhedeg stondinau. Mae'r digwyddiadau hyn yn eu helpu i ddatblygu'r hyder sydd ei angen arnynt i ryngweithio â phobl nad ydynt yn eu hadnabod yn dda.

Mae'r coleg yn datblygu cysylltiadau buddiol gyda cholegau tebyg eraill. Mae hyn yn eu helpu i rannu gwybodaeth ac arbenigedd, er enghraifft mewn perthynas â chyrsiau a chymwysterau addas.

Mae'r coleg yn gweithio'n agos iawn gyda rhieni a gofalwyr. Mae staff yn rhoi gwybodaeth gyson iddynt am gynnydd eu plentyn drwy alwadau ffôn rheolaidd, diwrnodau agored ac arddangosfeydd o waith dysgwyr. Mae'r coleg yn cynhyrchu adroddiadau clir, llawn gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i rieni a dysgwyr.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r coleg yn cyflogi staff sydd â gwybodaeth ac arbenigedd priodol yn eu meysydd arbenigol. Mae staff cymorth yn gweithio'n dda â'r dysgwyr i'w helpu i gyflawni eu

nodau.  Mae pob un o'r staff yn elwa ar raglen hyfforddi gynhwysfawr, yn cynnwys sesiynau ar addysgu a dysgu, diogelu ac ymwybyddiaeth o awtistiaeth.

Mae dysgwyr yn cael mynediad i ystod eang o adnoddau dysgu priodol, gyda ffocws ar ddysgu yn y gwaith.  Defnyddir gweithdai crefft a'r fferm gan y coleg i baratoi dysgwyr yn dda ar gyfer bywyd yn y gymuned, cyflogaeth a hyfforddiant pellach.

Mae'r coleg yn rheoli ei adnoddau yn dda.  Caiff swyddogaethau pwysig, fel adnoddau dynol, datblygiad staff ac iechyd a diogelwch eu rhannu gyda Choleg Ruskin Mill.  Mae hyn yn helpu'r coleg i ddefnyddio'i adnoddau yn effeithiol.  Mae'r coleg yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau a chodi arian i wella ei ddarpariaeth ac i brynu offer ychwanegol.

O ganlyniad i'r deilliannau da a gyflawnir gan ddysgwyr, mae'r coleg yn darparu gwerth am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiaduron i ddysgwyr

Roedd nifer yr ymatebion a dderbyniwyd yn llai na 10.  Ni ddangosir unrhyw ddata.

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Roedd nifer yr ymatebion a dderbyniwyd yn llai na 10.  Ni ddangosir unrhyw ddata.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Caroline Rees | Arolygydd Cofnodol |
| Claire Yardley | Arolygydd Tîm |
| Lucy Pottinger | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jane White | Enwebai |